

CYNGOR SIR DINBYCH

Cofnodion cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Sir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (L.D.P.) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun dydd Gwener, 20 Mai 2011 am 9:30 a.m.

PRESENNOL

Cynghorwyr W.L. Cowie (Cadeirydd), I.W. Armstrong, J.R. Bartley, B. Blakeley, J. Butterfield, J. Cahill, J. Chamberlain Jones, J.A. Davies, J.M. Davies, M.L.I. Davies, P.A. Dobb, M.J. Eckersley, C.M. Evans, G.C. Evans, H.H. Evans, R.L. Feeley, S. Frobisher, G.A. Green I.A. Gunning, D. Hannam, C. Hughes, T.R. Hughes, E.R. Jones, H.L.I. Jones, M.M. Jones, G.M. Kensler, D.W. Lee, P.J. Marfleet, L.M. Morris, P.W. Owen, D. Owens, A.G. Pennington, B.A. Smith, D.I. Smith, D.A.J. Thomas, S. Thomas, J. Thompson-Hill, C.H. Williams ac E.W. Williams. J.G. Yorke

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Rheolaeth Gorfforaethol dros dro (JK), Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (GHB) Rheolwr Polisi, Ymchwil a Gwybodaeth (AL), a Phennaeth Moderneiddio Addysg (JW), Cyfarwyddwr Corfforaethol Trawsnewid Busnes ac Adfywio (BJ), Cyfarwyddwr Corfforaethol Demograffeg, Lles a Chynllunio (SE), Jonathan Easton, Siambr Kings – Bargyfreithiwr y Cyngor

GWEDDI

Cyflwynodd y Cynghorydd M.L.I. Davies y weddi ar ddechrau'r cyfarfod.

46 DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Cynghorwyr J.B. Bellis, C. Davies, P.C. Duffy, G.A. Jones, N.J. Hughes, R.W. Hughes, G. Williams

47 DATGANIADAU BUDD

Cadarnhaodd JK na dderbyniwyd unrhyw ddatganiad budd cyn y cyfarfod.

Datganodd y Cynghorydd E W Williams berchnogaeth tir y teulu mewn rhai ardaloedd fel yr oedd wedi datgan yn gyson yng Ngweithgor y Cynllun Datblygu Lleol a Chyfarfodydd y Cyngor Cymuned.

Dywedodd y Cynghorydd TR Hughes fod ei deulu'n berchen tir ym Mhentredŵr.

Mynegodd y Cynghorydd S Thomas fudd mewn unrhyw fater yn ymwneud â charafannau.

Yn dilyn ymholiadau gan rai Aelodau am yr angen am iddyn nhw ddatgan budd yn ystod trafodaethau ar y Cynllun Datblygu Lleol neu safleoedd penodol o fewn rhai ardaloedd, ni chafwyd unrhyw ddatganiad budd personol nag un sy'n rhagfarnu.

48 CROESO'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cynghorydd Bill Cowie bawb i'w gyfarfod Cyngor cyntaf fel Cadeirydd. Estynnodd groeso arbennig i ymwelwyr, cynrychiolwyr Cyngor Tref Bodelwyddan, Grŵp Gweithredu Datblygu Bodelwyddan a Thir ac Ystadau Barwood oedd yn oriel gyhoeddus y siambr ac i aelodau o'r cyhoedd yn Ystafelloedd 1a/b yn gwylio'r trafodaethau ar ddolen fideo.

Cyfeiriwyd y cyfarfod at adroddiad adendwm (ar bapur melyn) a ddosbarthwyd oedd yn rhoi manylion mân gywiriadau ac amserlen y diwrnod (ar bapur glas).

49 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR DDINBYCH – ADRODDIAD YN ÔL AR YR YMGYNGHORIAD A'R CAMAU NESAF I GYNNWYS ARGYMHELLION FFURFIOL ER MWYN CYFLWYNO'R CYNLLUN I LYWODRAETH CYMRU A'R AROLYGIAETH GYNLLUNIO

Amlinellodd y Cynghorydd Sharon Frobisher (Aelod Arweiniol ar yr Amgylchedd a Datblygiad Cynaliadwy) y cynnydd ar y Cynllun Datblygu Lleol (LDP) a'r prif faterion a godwyd drwy amrywiol

gamau'r ymgynghoriad ar y Cynllun. Roedd awgrymiadau gan aelodau'r cyhoedd ers i'r ymgynghori ddechrau yn 2006 wedi'u hystyried a'u mapio ar y wefan. Mae prif ffocws y datblygiad yng Ngogledd y Sir lle gwelwyd yr angen mwyaf. Y Safle Strategol Allweddol ym Modelwyddan oedd yn cynnig y potensial gorau i ddatblygu tai a thir cyflogaeth. Dangosodd y Cynghorydd Frobisher y byddai cam pwysig yn cael ei gymryd heddiw ond nid hwn fyddai'r penderfyniad terfynol. Byddai'r argymhellion yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio fyddai'n cynnal Archwiliad Cyhoeddus i asesu 'cadernid' y Cynllun.

Galwodd y Cadeirydd ar y siaradwr cyhoeddus cyntaf, Derek Barker, a fu'n siarad am 5 munud yn erbyn y LDP ar ran Grŵp Gweithredu Datblygu Bodelwyddan.

Cyfeiriodd Mr Barker at egwyddor LIC o gael pobl yn ganolog i'r broses gwneud penderfyniadau a bod cynllunio'n ddiwerth heb gefnogaeth y cyhoedd. Dywedodd fod Cynghrair Dyfrdwy Mersi erbyn hyn wedi peidio â bod ar gyfer tai, oedd wedi arwain at y niferoedd mawr oedd yn cael eu cynnig yn y Cynllun Datblygu Lleol i greu setliadau byw ar gyfer gogledd orllewin Lloegr. Roedd yn amau'r angen am dreblu maint y pentref ac anogodd na ddylai cost ddylanwadu ar y penderfyniad. Teimlai y dylid cael rhywle arall i osod yr holl dai angenrheidiol ym Modelwyddan drwy eu rhannu rhwng trefi eraill fel Dinbych, Llanelwy, y Rhyl neu Ruddlan. Teimlai fod y Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei ysgogi gan nifer tai ac nid swyddi na chynnaladwyedd. Cyfeiriodd at bleidlais gymunedol ym Modelwyddan oedd yn esgor ar bleidlais o 94% yn erbyn y cynllun hwn. Teimlai ei bod yn aneglur pam bod Bodelwyddan wedi'i dewis ar gyfer twf a theimlai nad oedd y tri Safle Strategol Allweddol wedi'u harchwilio yn yr un modd gan mai datblygwr oedd wedi paratoi'r wybodaeth ar Fodelwyddan. Condemniodd hefyd y penderfyniad i ddefnyddio safleoedd caeau gwyrdd.

Galwodd y Cadeirydd ar yr ail Siaradwr Cyhoeddus, Peter Lloyd, oedd yn siarad am 5 munud yn erbyn y LDP ar ran Cyngor Tref Bodelwyddan

Gofynnodd Mr Lloyd i'r Cyngor Sir gamu'n ôl ac archwilio'r dystiolaeth, i adolygu'r ymgynghoriad a gynhaliwyd a pholisi cyhoeddus BSC 5 yn benodol. Cydnabu'r Cyngor Tref yr angen am LDP ond ni ddylid ei ruthro. Condemniodd y defnydd o dir amaethyddol Gradd 3 a oedd, meddai, yn adnodd penodol y dylid ei ddiogelu.

Teimlai na fyddai'r Cynllun yn cael ei weld fel un cadarn gan ei fod yn erbyn canllawiau cenedlaethol a darganfyddiadau'r Asesiad Cynnaladwyedd.

Dim ond ar ôl y Cyflwyno y paratowyd yr asesiad Effaith Ieithyddol ar y Gymuned, dylai fod wedi'i adeiladu i mewn i'r Cynllun. Nid oedden nhw wedi edrych ar unrhyw fan arall.

Dywedodd nad oedd yn rhaid i'r Cyngor Sir ddefnyddio ffigurau LIC ar gyfer dyrannu tai, gallai fod yn llai na hynny. Nid oedd trafnidiaeth gyhoeddus yn dda iawn ym Modelwyddan ac nad oedd twf mawr ar y raddfa hon yn realistig. Teimlai fod y Cynllun Datblygu Lleol yn anhyblyg ac nad oedd y profion cadernid wedi'u cyflawni.

Anogodd y Cyngor i wrthod y Cynllun.

Cynigiodd y Cynghorydd Eryl Williams gywiriad - nad oedd Cynghrair Dyfrdwy Mersi wedi "peidio â bod". Roedd Strategaeth Ofodol Is Ranbarthol Gorllewin Sir Gaer/Gogledd Ddwyrain Cymru wedi'i thynnu'n ôl ond bod yr MDA yn parhau. Cadarnhaodd fod croeso i'r holl aelodau archwilio holl agendau'r cyfarfodydd yr oedd ef wedi'u mynychu a chadarnhaodd nad oedden nhw wedi trafod tai yng Ngogledd Cymru mewn unrhyw gyfarfod dim ond yr economi.

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (Graham Boase) y prif faterion. Roedd Llywodraeth Cymru 2010 yn rhagfynegi twf o 8000 annedd i Sir Ddinbych. Nid yw'r Cyngor yn gaeth i hynny ac mae wedi penderfynu ar ffigur is o 7500. Mae hwn wedi'i seilio ar angen o fewn Cymru nid ar annog pobl i symud o Loegr. Cyfeiriodd Mr Boase at ohebiaeth oddi wrth Gynghrair Dyfrdwy Mersi yn nodi nad oedd ganddyn nhw unrhyw rôl mewn gosod niferoedd tai. Mae amcanestyniad DCC o 7500 wedi'i wasgaru dros oes y Cynllun, hyd at 2021. Byddai dyraniad Bodelwyddan o 1700 yn cael ei gyflawni fesul cam gyda 5800 annedd arall wedi'u gwasgaru ar draws y Sir, yn bennaf o fewn ffiniau datblygu presennol. Gallai DCC fod wedi dewis ffigur is ond ceisiodd Cyngor Sir Conwy wneud hynny ar gyfer ei gynllun yn 2009 ond gwrthododd LIC, felly roedd yn ymwybodol o'r wers honno.

Byddai cynnig Bodelwyddan yn cael ei drafod ar wahân gan ei fod yn Safle Strategol Allweddol. Nid tai yn unig oedd hyn ond roedd yn cynnwys 26 Ha o dir ar gyfer datblygu cyflogaeth a 500-700 o dai fforddiadwy fyddai'n ateb angen lleol er budd creu cymuned gynaliadwy. Byddai gweithwyr allweddol yn yr ysbty gerllaw yn elwa. Roedd cynlluniau hefyd ar gyfer creu cyfleusterau yn y gymuned fel ysgol, siopau, rhandiroedd a thrafnidiaeth ac roedd yn hyderus y byddai'r rhain yn cael eu gwireddu.

Pwysleisiodd Mr Boase nad cais cynllunio oedd hwn ond strategaeth tymor hir fyddai o gymorth i'r broses gynllunio yn y dyfodol.

Amlinellodd waith y Gweithgor Cynllun Datblygu Lleol oedd wedi treulio pum mlynedd i drafod strategaeth ac wedi cyfarfod â phob Cyngor Tref a Chymuned yn y Sir, wedi ymgynghori â Dŵr Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd ac wedi cael cefnogaeth Llywodraeth Cymru.

Dywedodd Mr Boase fod y Grŵp wedi ystyried nifer o opsiynau ond teimlai mai Bodelwyddan oedd y safle delfrydol.

Pwysleisiodd fod y cyngor llawn wedi pleidleisio i gymeradwyo'r strategaeth yn flaenorol a gofynnodd pa dystiolaeth newydd oedd wedi dod i'r amlwg a fyddai'n arwain at newid mawr yn y strategaeth yn awr? Mae disgwyl gwrthwynebiadau lleol i'r Cynllun. Petai Bodelwyddan yn cael ei wrthod, yna byddai'n rhaid i'r datblygiad fynd i rywle arall a byddai gwrthwynebiadau'n codi yn y lleoliadau eraill hyn hefyd. Mae mwy o gyfyngiadau ffisegol mewn canolfannau eraill yn y Sir sy'n cyfyngu ar eu cyfleoedd i dyfu.

Os na fydd y cynnig hwn yn cael ei gymeradwyo heddiw, byddai'n rhaid dechrau ar y broses eto ond ni fyddai hyn yn atal y datblygwyr rhag cyflwyno ceisiadau cynllunio. Os nad oes gan y Sir gynllun datblygu wedi'i fabwysiadu a chyflenwad tir sy'n prinhaus, yna bydd Sir Ddinbych mewn perygl mawr o ddioddef gan bwysau datblygu ar safleoedd heb eu neilltuo ar draws y Sir. Ni fyddai'r penderfyniad heddiw'n ymrwymo Sir Ddinbych i'r opsiwn hwn gan y bydd yr Archwiliwr annibynnol yn cynnal archwiliad cyhoeddus. Pwysleisiodd ei fod yn ystyried y cynllun fel un cadarn a'i fod wedi dilyn proses resymegol ar sail tystiolaeth. Pwysleisiodd fod cefnogaeth eang i'r Cynllun Datblygu Lleol gan gymunedau, swyddogion y cyngor, cyrff statudol a Llywodraeth Cymru.

Gohiriwyd y cyfarfod yn awr i gael seibiant gan ail ddechrau am 10.45 am.

(Bu'n rhaid i'r Cynghorydd H.H Evans adael y cyfarfod yn awr oherwydd argyfwng teuluol).

Croesawodd y Prif Swyddog Gweithredol bawb yn ôl a dywedodd wrth y cyfarfod er bod y rhaglen wedi trefnu i GHB siarad am 5 munud, bu'n rhaid ymestyn yr amser hwnnw er mwyn iddo egluro'r materion yn ddigon manwl.

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod i'r Aelodau drafod a derbyn cwestiynau. Atgoffwyd yr Aelodau am y terfyn amser o 5 munud.

Cyfeiriodd y Cynghorydd G Evans at dudalen 27, paragraff 9.4.2 Adroddiad yr Ymgynghoriad a gofynnodd a oedd y Cyngor yn gofyn i'r Archwiliwr ail ystyried dyraniad Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan.

Ymatebodd A Loftus fod Adroddiad yr Ymgynghoriad yn cynnwys rhestr o argymhellion ar faterion y byddai'r Archwiliwr efallai'n dymuno edrych arnyn nhw o ganlyniad i'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad. Mae'r swyddogion yn hyderus eu bod wedi delio â'r materion hyn ond mae dyletswydd arnyn nhw dynnu sylw'r Archwiliwr atyn nhw.

Mynegodd y Cynghorwyr A Davies a D Hannam bryder am allu Ysbyty Glan Clwyd i ymdopi â chynnydd mawr yn y boblogaeth. Roedden nhw hefyd yn gofyn am sicrwydd y byddai cyfleusterau'n cael eu darparu yn y gymuned fel rhan o'r datblygiad.

Cytunodd A Loftus fod darparu cyfleusterau yn y gymuned yn sylfaenol i greu cymuned gynaliadwy. Bydd y Safle Strategol Allweddol yn cael ei uwch gynllunio drwy friff datblygu i'w lunio gan y gymuned leol a'i gytuno gan y Cyngor. Bydd darparu cyfleusterau'n rhan o unrhyw ganiatâd cynllunio drwy

gytundebau cyfreithiol. Mae swyddogion wedi bod yn trafod gyda'r awdurdod iechyd lleol drwy gydol datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol ac maen nhw'n ymwybodol o'r cynigion ac yn hyderus y byddan nhw'n gallu cyflawni anghenion iechyd y dyfodol yn yr ardal.

Dyweddodd y Cynghorydd I Gunning ei fod wedi gweld gwrthwynebiad lleol i safle Bodelwyddan wrth ymgyrchu dros yr etholiadau diweddar i'r Cynulliad. Cododd dri chwestiwn:

1. O safbwynt y nifer o dai newydd i gael eu darparu yn y Cynllun Datblygu Newydd, ydy'r rhain wedi'u seilio ar hen ffigyrau, a oes eu hangen o hyd o ystyried yr hinsawdd economaidd?
2. Pam mai Bodelwyddan yw'r unig ardal sy'n cael ei hystyried ar gyfer datblygu ymhellach, beth am safleoedd adfywio fel Gorllewin y Rhyl?
3. Cytundebau Adran 106, teimla cymunedau eu bod wedi cael eu gadael i lawr gan y rhain yn y gorffennol.

Atebodd A Loftus a G Boase fod y lefelau twf yn y Cynllun Datblygu Lleol yn unol â'r ffigyrau mwyaf diweddar a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2010. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn gynllun tymor hir a rhaid i ni edrych y tu hwnt i'r sefyllfa economaidd bresennol. Mae'r Cyngor yn gweithio'n galed i ddod â thai gwag yn ôl i'r farchnad er mwyn eu defnyddio ond nid yw'r rhain yn cyfrannu at y cartrefi newydd sydd eu hangen. Mewn ardaloedd fel Gorllewin y Rhyl, mae angen gwella ansawdd tai yn hytrach na darparu tai ychwanegol, lleihau dwysedd a gwella'r amgylchedd ac adfywio yw'r prif flaenoriaethau yma. Rhaid i gytundebau Adran 106 gydymffurfio â chaniatâd cynllunio a chyflawni'r hyn sydd ei angen. Pwysleisiwyd mai'r Cynllun Datblygu Lleol yw strategaeth y Cyngor a bydd yn rhaid i unrhyw ddatblygwyr ddarparu'r hyn rydyn ni'n ei ystyried sydd ei angen.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Feeley nad oedd hi ychwaith wedi clywed nifer yn ffafrio safle Bodelwyddan yn lleol a theimlai y dylid ystyried canlyniad pleidlais y gymuned. Teimlai fod economi'r DU wedi newid yn sylweddol ers dechrau'r cynllun gyda phobl yn awr yn methu â chael morgeisi a nifer o siopau gwag ar draws y Sir. Teimlai y byddai'n well stopio'r Cynllun Datblygu Lleol a dechrau eto yn hytrach na pharhau. Mynegodd bryder nad oedd y Cyngor yn gallu rheoli ei gyfleusterau hamdden presennol a holai a oedd yn ddoeth ceisio darparu mwy o safleoedd datblygu. Soniodd hefyd ei bod yn anhapus bod Llywodraeth Cymru'n gorfodi ffigyrau ar y Cyngor.

Cydnabu A Loftus fod yr economi wedi newid ers dechrau'r broses gynllunio; Mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi esblygu o fewn yr amserlen hon ac mae'n gynllun tymor hir. Mae'r rhagolygon economaidd yn debygol o wella o fewn oes y Cynllun. Cydnabu bod anawsterau ar hyn o bryd i gael morgeisi ond pwysleisiwyd bod angen enfawr o hyd am dai fforddiadwy yn y Sir. Mae bron i 50% o gartrefi yn y Sir yn methu â fforddio tŷ dwy lofft; mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio mynd i'r afael â hyn. Hefyd, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys polisiau i ddiogelu siopau lleol a datblygu canolfannau trefi. Mae'r Cyngor wedi gwneud ei benderfyniadau ei hun o safbwynt lefel twf yn y Cynllun Datblygu Lleol a chytunodd y cyngor llawn ar y rhain ddwy waith yn flaenorol. Mae'r Cyngor hefyd wedi comisiynu ei waith ei hun ar boblogi a rhagfynegiadau tai sydd wedi esgor ar ganlyniadau tebyg i ffigyrau Llywodraeth Cymru i raddau helaeth.

Cadarnhaodd y Cynghorydd S Frobisher fod pleidlais y gymuned ym Modelwyddan wedi cadarnhau mai'r ganran o'r pleidleiswyr cymwys a bleidleisiodd oedd 25%. Roedd 21% o'r pleidleiswyr cymwys wedi pleidleisio yn erbyn y datblygiad, 79% naill ai ddim wedi pleidleisio neu wedi pleidleisio dros y datblygiad.

Gofynnodd y Cynghorydd L Morris am eglurhad am oblygiadau peidio â chael cynllun datblygu wedi'i gymeradwyo.

Ymatebodd A Loftus a G Boase am y risgiau os na fydden nhw'n datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol, mae'r UDP yn gorffen yn 2011 ac o'r 4,100 annedd ar ddyraniadau safle yn y Cynllun hwnnw, dim ond 100 sydd heb eu hadeiladu eto. Mae'n rhaid i'r Cyngor ddiweddarau polisiau i adlewyrchu canllaw presennol a sicrhau cyflenwad tir digonol. Mae'n un o'r gofynion statudol i lunio Cynllun Datblygu Lleol ac mae'r Cyngor wedi arwyddo i hyn yn 2005 pan oedd yn cymeradwyo'r Cytundeb Darparu. Byddai methu â symud ymlaen gyda'r Cynllun Datblygu Lleol yn awr yn rhoi'r broses yn ôl tua 2 flynedd a heb gyflenwad tir digonol byddai'r Cyngor mewn sefyllfa anodd i orfod derbyn datblygiadau ar safleoedd annymunol.

Cydnabu'r Cynghorydd D Smith fod darparu ysgol gynradd yn cael ei ystyried fel rhan o'r datblygiad ond roedd yn amau'r effaith canlyniadol ar ddarpariaeth uwchradd ac a fyddai'r Cyngor yn gallu ariannu hyn?

Cadarnhaodd A Loftus fod yr adran gynllunio wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda'r adran addysg drwy gydol y broses a bod yr angen am ysgol gynradd newydd wedi'i nodi ond bod lleoedd gwag mewn darpariaeth uwchradd.

Cadarnhaodd J Walley Pennaeth Moderneiddio Addysg fod lleoliadau addysgol yn cael eu cyfrif drwy ddefnyddio fformiwla genedlaethol safonol. Cyfrifir bod 1,700 annedd newydd yn creu 515 disgybl cynradd a 367 disgybl ysgol uwchradd ychwanegol. Mae diffyg lleoedd yn y sector ysgolion cynradd yn yr ardal ond bod lleoedd gwag yn Ysgol Uwchradd y Rhyl ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y bydd hi'n fwy anodd sicrhau nifer o leoedd ychwanegol mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn enwedig os bydd Ysgol Emrys ap Iwan yng Nghonwy'n cael ei heffeithio gan gynnydd mewn tai yn Abergele oherwydd Cynllun Datblygu Lleol Conwy.

Dyweddodd y Cynghorydd E Williams ei fod wedi bod yn ymwneud â phroses y Cynllun Datblygu Lleol ers ei dechrau ac roedd yn drist gweld cynifer o gynghorwyr yn codi gwrthwynebiadau sylfaenol mor hwyr yn y broses. Pwysleisiodd fod cymunedau eraill nid yn unig Bodelwyddan yn ddibynnol ar y penderfyniadau fydd yn cael ei gwneud yn y cyfarfod. Gallai cymunedau fod o dan fygythiad os na fydden nhw'n cymeradwyo'r Cynllun Datblygu Lleol i gael ei gyflwyno. Roedd yn cytuno bod y broses o ddatblygu ffigyrau tai gan Lywodraeth Cymru'n ddiffygiol ac y dylid mabwysiadu ymagwedd o'r gwaelod i fyny.

Llongyfarchodd Bennaeth y Gwasanaeth a thîm y Cynllun Datblygu Lleol am yr holl waith sydd wedi'i wneud.

Amylgodd y Cynghorydd B Blakeley ddatblygiad cyfredol yn y Rhyl a'i fod wedi methu â chyflawni buddion cymunedol yn ôl yr addewid. Mae materion wedi codi'n ymwneud â man agored, ffyrdd ac yn y blaen a theimlai y dylai'r datblygiad fod yn fwy ar draws y Sir.

Ymatebodd A Loftus gan ddweud eu bod wedi edrych ar y Rhyl a Llanelwy o safbwynt lleoliadau ar gyfer Safle Strategol Allweddol a chynhaliwyd ymgynghoriad trylwyr ar hyn. Diystyrwyd y safle yn y Rhyl gan fod problemau'n ymwneud â'r potensial i gyflawni safle o'r fath fel yr angen am ffordd gyswllt newydd a risg o lifogydd. Ailadroddodd A Loftus y bydd y safle ym Modelwyddan yn bwnc i'r uwch gynllun a briff datblygu fydd yn cael eu datblygu gyda'r gymuned ac y bydden nhw'n adrodd yn ôl i'r Cyngor i gael cymeradwyaeth. Bydd hyn yn rhoi pwysau sylweddol i'r briff datblygu a bydd yn ystyriaeth gynllunio faterol wrth asesu cais cynllunio ar gyfer y safle. Pwysleisiodd G Boase mai Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych oedd hwn nid un Llywodraeth Cymru.

Cyfeiriodd y Cynghorydd S Thomas at Ddogfen Gysylltiedig 4 Polisi BSC5 - Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan - crynodeb o'r prif faterion a godwyd ac ymateb y Cyngor, yn benodol paragraff 4.3 oedd yn cyfeirio at gyfranogiad datblygwr posibl i'r safle. Roedd wedi bod yn rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol o'r dechrau a theimlai bod yn rhaid i'r Cyngor wrando ar y cyhoedd ac nad oedd yn rhy hwyr i dynnu'n ôl o'r strategaeth hon.

Ymatebodd G Boase gan ddweud nad oedd cyfranogiad datblygwr posibl mewn safle mawr yn anghyffredin a chadarnhaodd fod y cysyniad o'r safle wedi dod oddi wrth y Cyngor nid oddi wrth y datblygwr dan sylw. Roedd G Boase yn deall bod y datblygwr wedi bod yn rhan o'r broses ers i'r perchnogion tir benodi asiant i hysbysebu'r safle a chysylltu â datblygwyr posibl i weld os oedd ganddyn nhw ddiddordeb.

Dyweddodd G Boase mai'r dewis arall i symud ymlaen gyda'r strategaeth Cynllun Datblygu Lleol oedd mynd yn ôl i ymagwedd darniog gyda datblygiadau ar raddfa fach na fyddai'n cynnig unrhyw fudd i'r gymuned. Ymgynghorwyd yn eang ar y Cynllun Datblygu Lleol a chynigiwyd nifer o newidiadau i'r Cynllun o ganlyniad i'r broses ymgynghori hon.

Gofynnodd y Cynghorydd TR Hughes 3 chwestiwn:

1. Mae ysgolion gwledig yn ne'r Sir yn cael eu cau, ydy'r arian sy'n cael ei arbed yn mynd i ogledd y Sir i ddarparu ar gyfer y mewnfudwyr?
2. A all swyddogion roi manylion lle mae safleoedd o fewn awdurdodau lleol eraill wedi'u dewis gan ddatblygwyr oherwydd nad yw'r Cyngor wedi mabwysiadu cynllun datblygu mabwysiedig.
3. Strategaeth Ofodol Is Ranbarthol Gorllewin Sir Gaer/ Gogledd Ddwyrain Cymru - faint o ddylanwad mae'r ddogfen hon wedi'i gael ar y ffigyrau twf yn y Cynllun Datblygu Lleol?

Estynnodd G Boase wahoddiad i J Walley ateb y chwestiwn cyntaf:

1. Cadarnhaodd J Walley benderfyniad y Cabinet y byddai unrhyw arbedion yn yr adolygiad addysg yn cael ei fuddsoddi mewn prosiectau addysg blaenoriaethol. Y prosiect blaenoriaeth fyddai addysg cyfrwng Cymraeg yng ngogledd y Sir.
2. Dywedodd G Boase ei bod yn anodd ateb chwestiwn o'r fath heb ofyn I Awdurdodau Lleol eraill. Fodd bynnag, soniodd am safle yng Nghyffordd Llandudno (Conwy) a gafodd ganiatâd yn dilyn apêl ar gyfer 200 o dai yn erbyn dymuniadau lleol.
3. Nid yw Strategaeth Ofodol Is Ranbarthol Gorllewin Sir Gaer/ Gogledd Ddwyrain Cymru bellach yn bodoli ac nid oedd erioed yn gynllun statudol ac nid yw wedi dylanwadu ar lefelau twf yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae gan Gynghrair Dyfrdwy Mersi oedd yn comisiynu'r strategaeth economaidd sy'n canolbwyntio ac nid yw'n chwarae unrhyw rôl yn nhwf tai. (dyfyniad GHB o lythyr). Mae'r economi'n gweithio ar draws ffiniau sirol a gwladol a dyma ffocws y grŵp. Cadarnhaodd y Cynghorydd E Williams iddo fynychu cyfarfodydd y Cynghrair Dyfrdwy Mersi ac nad oedd twf tai wedi ymddangos ar yr agenda ar gyfer un o'r cyfarfodydd.

Cadarnhaodd y Cynghorydd B Smith ei bod hi'n aelod o weithgor y Cynllun Datblygu Lleol ac roedd yn adleisio sylwadau'r Cynghorydd E Williams ei bod hi'n drist eu bod yn trafod egwyddor Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan mor hwyr yn y dydd. Pwysleisiodd eu bod wedi ymgynghori ar y cysyniad o Safle Strategol Allweddol yn y cyfnod Cyn-Cyflwyno(2008), nid oedd llawer o wrthwynebiad i'r cysyniad hwn ac roedd y Cyngor wedi parhau gyda'r strategaeth hon ar sail hynny. Atgoffodd yr aelodau y byddai cyfle i adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar ôl 5 mlynedd. Codwyd ddau gwestiwn:

1. Mae Bodelwyddan yn gymuned fechan ar hyn o bryd, sut bydd y rhannau hen a newydd o'r gymuned yn cael eu hintegreiddio?
2. Yr Aseiad Effaith Ieithyddol ar y Gymuned a gynhaliwyd – beth fydd y Cyngor yn ei wneud i annog y defnydd o'r iaith Gymraeg?

Ymatebodd A Loftus:

1. Bydd integreiddio'n nodwedd allweddol o'r ymagwedd uwch gynllun, sy'n hanfodol i greu'r syniad o gymuned ym Modelwyddan rhwng rhannau presennol a rhannau newydd y setliad.
2. Cydnabuwyd y CLIA fel enghraifft o waith da a gellir gweithredu'r mesurau a argymhellir ynddo i ddiogelu a datblygu'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Bydd darparu ysgol gynradd newydd yn bwysig ond hefyd yn gweithio gyda'r sefydliadau iaith Gymraeg gan hybu'r defnydd o gyfleusterau yn y gymuned a brandio a marchnata'r Gymraeg.

Gofynnodd y Cynghorydd C Williams faint o bobl oedd wedi darllen y papur 58 tudalen ar Gynghrair Dyfrdwy Mersi lle cynigiwyd 20,000 o gartrefi ar gyfer y rhanbarth sy'n cynnwys Gorllewin Sir Caer a Gogledd Ddwyrain Cymru. Mae'r papur hefyd yn dweud bod angen creu hunaniaeth i'r rhanbarth i gynnwys Ellesmere Port, Caer, Wreccsam, Sir y Fflint a rhannau o Sir Ddinbych.

Ailadroddodd A Loftus a G Boase mai cynllun anstatudol oedd hwn ac eto dyfynnodd o lythyr a dderbyniwyd oddi wrth Gynghrair Dyfrdwy Mersi oedd yn cadarnhau nad oedd ganddi rôl mewn edrych ar lefelau twf tai.

Gofynnodd y Cynghorydd G Kensler a ddylai tudalen 9 o'r adroddiad, paragraff 5.21 ddarllen "Fodd bynnag, nid yw'r lwfans hwn am lithriant yn awgrymu y gallai'r Cyngor ostwng dyraniad y Safle Strategol Allweddol." Cadarnhaodd A Loftus fod hyn yn gywir fel yr amlgwyd ar y daflen felen oedd yn amlinellu mân gywiriadau i'r adroddiad.

Amlygodd y Cyngorydd Kensler y gwaith a wnaed gan y Dr Alan Netherwood ar y risgiau oedd yn gysylltiedig â newid byd-eang. Pwysleisiodd y byddai rôl safleoedd tir llwyd a rôl amaethyddiaeth yn cael eu hystyried yn fwy pwysig yn y dyfodol. Gall safleoedd tir llwyd fod yn ddrutach i'w datblygu ac felly'n llai deniadol i ddatblygwyr ond mae tir yn gyfyngedig a dylid ei ddiogelu. Roedd cyn Ysbyty Gogledd Cymru Dinbych yn enghraifft o lle'r oedd datblygwyr yn amharod i ddatblygu safle tir llwyd. Teimlai bod y Cynllun Datblygu Lleol yn rhaglen dan arweiniad datblygwyr. Teimlai y gallai ffigurau llywodraeth ganolog newid ac nad oedd y Cynllun Datblygu Lleol mor hir dymor gan mai 10 mlynedd sydd ar ôl iddo redeg.

Ymatebodd G Boase fod y cyn Ysbyty Gogledd Cymru fel adeilad rhestredig unigol sy'n dirywio yn hollol wahanol i Gynllun Datblygu Lleol.

Dywedodd y Cyngorydd P Marfleet fod pawb yn cytuno fod pwysau cynyddol ar brif strydoedd y Sir a bod cadw pobl ifanc yn broblem fawr oedd yn arwain at broblemau demograffig. Roedd cymunedau nad oedd wedi gweld llawer o dwf dros y 30 mlynedd ddiwethaf yn gyffredinol wedi colli eu siop, tafarn ayyb lle'r oedd cymunedau oedd wedi derbyn twf tai wedi ffynnu a chadw eu cyfleusterau. Mae nifer o bobl ifanc yn symud i fwrdd ar hyn o bryd a rhai'n dychwelyd i ddechrau teulu. Mae fforddiadwyedd a diffyg cyffredinol o dai'n rhwystr i bobl ifanc aros a dychwelyd. Rhaid derbyn twf mewn poblogaeth gan ei fod wedi'i gysylltu â lles economaidd. Dyfynnodd enghraifft Tref Newydd Telford na chafodd groeso'n lleol pan gynigiwyd hi ond mae wedi profi ei bod wedi cael effeithiau buddiol ar y cymunedau lleol yn yr ardal. Mae bob amser yn anodd derbyn newid ond dylid ei gofleidio. Gofynnodd petai'r penderfyniad yn mynd yn erbyn cael Bodolwyddan fel y Safle Strategol Allweddol yna pam bod yn rhaid i'r strategaeth Cynllun Datblygu Lleol fetu?

Ymatebodd A Loftus a G Boase gan ddweud fod y Safle Strategol Allweddol yn ffitio o fewn y strategaeth Cynllun Datblygu Lleol yn gyfan ond ei fod yn sylfaenol i'r strategaeth honno o safbwynt cyflawni anghenion tai. Byddai unrhyw newid fyddai'n mynd i galon y Cynllun angen ailfeddl y strategaeth. Cadarnhawyd bod newid wedi bod yn y ddeddf cynllunio, roedd cynlluniau datblygu'n arfer cael mwy o bwysau wrth iddyn nhw ddatblygu ond ni fydd y Cynllun Datblygu Lleol yn cario unrhyw bwysau hyd nes iddo gael ei dderbyn, felly nid yw'n bosibl defnyddio rhannau o'r Cynllun Datblygu Lleol a gadael rhannau eraill, ar ôl ei dderbyn.

Roedd y Cyngorydd M LL Davies wedi mynychu gweithgor y Cynllun Datblygu Lleol fel y gall yr holl aelodau. Dywedodd ei fod wedi gofyn 18 mis yn ôl a allai'r gweithgor wrthod safle Bodolwyddan a dywedwyd wrtho ei fod yn benderfyniad i'r cyngor llawn. Cododd y mater o safleoedd datblygu blaenorol yn methu â darparu unrhyw fuddion i'r gymuned a mynegodd bryder am gyflenwi'r Cynllun Datblygu Lleol. Dywedodd nad oedd Awdurdodau Lleol eraill fel petaen nhw'n pryderu am beidio â chael cynllun datblygu. Bydd yr Archwiliad Cyhoeddus gyda'r Archwiliwr yn sicrhau fforwm arall i drafod y Cynllun Datblygu Lleol ond os gwelir bod y cynllun yn 'gadarn' beth wedyn i bobl Bodolwyddan sy'n ei wrthwynebu? Addawyd cynnal adolygiad 5 mlynedd o'r UDP ond ni ddigwyddodd hyn.

Atebodd A Loftus gan ddweud fod adroddiad o'r holl faterion ymgynghori'n ymwneud â Bodolwyddan wedi'i gyflwyno i weithgor y Cynllun Datblygu Lleol yn 2010 a bod y grŵp wedi penderfynu cymryd unrhyw benderfyniad i'r cyngor llawn. Fel y dywedwyd ynghynt, byddai safle Bodolwyddan yn cael ei uwch gynllunio ac y byddai briff y datblygu'n cario pwysau. Petai'r Archwiliwr yn teimlo bod problemau sylfaenol gan y Cynllun Datblygu Lleol, yna ni fyddai ef/hi'n gadael i'r Cynllun fynd ymlaen i'r Archwiliad. Roedd proses adolygu'r UDP cyn i AL ymuno â'r awdurdod (dechreuwyd adolygu'r UDP, fodd bynnag, daeth rheoliadau newydd Cynllunio Datblygu Lleol i rym yn gynnar iawn a phenderfynodd yr aelodau symud ymlaen gyda'r Cynllun Datblygu newydd yn lle adolygu'r UDP). Rhaid paratoi adroddiad monitro blynyddol ar y Cynllun Datblygu Lleol fydd yn amlygu unrhyw broblemau mawr gyda'r cynllun ac yn mynnu adolygiad cynnar os bydd angen cyn yr adolygiad ffurfiol angenrheidiol - rhaid dechrau hwn o fewn 4 blynedd i'w dderbyn.

Dywedodd y Cyngorydd C Evans ei fod yn teimlo nad oedd swyddogion yn gwrando mewn cyfarfodydd o'r gweithgor Cynllun Datblygu Lleol a'i fod yn cael ei adael i'r cyngor llawn a'r Archwiliwr sortio'r Cynllun Datblygu Lleol. Eto, nid yw'r Cyngor yn gwrando ar bobl Bodolwyddan. Dywedodd fod angen am lefelau uwch o dai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig ac nad oedd 10 uned dai yn Llanarmon yn lâl dros 10 mlynedd yn ddigon. Dylai costau tai fforddiadwy hefyd fod yr un peth ar

draws y Sir gan fod pobl mewn ardaloedd gwledig yn cael eu cosbi'n annheg gan fod prisiau tai'n uwch.

Dywedodd A Loftus fod 12 uned wedi'u caniatáu ar gyfer Llanarmon dros gyfnod y cynllun a hefyd bod potensial ar gyfer safleoedd gwledig eithriadol o 100% o dai fforddiadwy ger ffiniau datblygu. Mewn cantrefi, byddai datblygu tai'n cael ei gyfyngu i'r rhai gyda chysylltiad lleol. Mae'r mater o gymhwyso'r fformiwla costau'n fwy o fater i'r canllaw cynllunio atodol nag i'r prif Gynllun Datblygu Lleol.

Dywedodd y Cynghorydd C Hughes ei bod yn bechod bod yr aelod lleol dros Fodelwyddan (y Cynghorydd ER Jones) yn cael ei wahardd rhag siarad yn y cyfarfod a gofynnodd am eglurhad cyfreithiol ar y mater. Dywedodd hefyd fod yr A55 yn rhwystr i'r iaith Gymraeg ac na allai weld y rhagfynegiant o swyddi'n cael ei wireddu.

Ymatebodd J Kennedy Pennaeth Rheolaeth Gorfforaethol dros dro gan ddweud iddi gael ar ddeall bod yr aelod lleol wedi'i gynghori gan ei feddyg i beidio â sefyll a siarad yn y cyfarfod a bod ganddo bapur meddyg i'r pwrpas hwnnw ond nad oedd wedi gweld y papur.

Ymatebodd G Boase gan ddweud bod yn rhaid i dir ar gyfer cyflogaeth fod yn agos i'r A55 os oedd am lwyddo mewn unrhyw fodd i ddenu buddsoddiad. Roedd hyn ar sail y dystiolaeth helaeth oedd wedi'i chasglu wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol.

Roedd G Boase yn crynhoi'r drafodaeth a gafwyd.

Mynegodd M Mehmet ei gefnogaeth i'r Cynllun Datblygu Lleol a'r tîm oedd wedi'i baratoi a phwysleisiodd fod y Cynllun Datblygu Lleol wedi cael cefnogaeth yr uwch dîm arweinyddiaeth. Yn 2008, roedd y cyngor wedi cytuno ar ffordd strategol ymlaen i'r Cynllun Datblygu Lleol a'r cynllun oedd o flaen yr aelodau yw canlyniad y strategaeth honno. Mae nifer o bobl yn hynod bositif am y Cynllun Datblygu Lleol a dylai gael y cyfle i gael ei ystyried gan yr Archwiliwr i benderfynu a ydy'r strategaeth yn gadarn ai peidio. Mae datblygiadau yn y gorffennol wedi siomi pobl ond ni ddylai profiadau gwael y gorffennol wneud pawb yn wrth-ddatblygiad. Mae angen sicrhau datblygiad cynaliadwy ar gyfer y dyfodol ac mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn rhoi cyfle da i dwf dan reolaeth gyflawni anghenion y bobl ifanc leol.

Cynigiodd y Cynghorydd S Frobisher (eiliwyd gan Dewi Owens) fod Aelodau'n cadarnhau cefnogaeth i'r Cynllun Datblygu Lleol fel y'i gwelwyd ym Mhennod 7 (gyda gwelliant Newidiadau Arfaethedig sy'n Canolbwyntio, cyfeir-rifau (FC20 - FC 24) gan gynnwys y lefel arfaethedig a dosbarthiad twf a dyraniad y Safle Strategol Allweddol ym Modelwyddan ar gyfer cymysgedd o ddefnydd fel y gwelwyd ym Mholisi BSC 5 y Cynllun Datblygu Lleol (ynghyd â chyfeir-rif FC 36 y Newid Arfaethedig sy'n Canolbwyntio).

Cynigiodd y Cynghorydd Selwyn Thomas, eiliwyd gan y Cynghorydd Cefyn Williams eu bod yn cynnal pleidlais wedi'i chofnodi. Yn dilyn cytuno ar y nifer angenrheidiol o Aelodau cynhaliwyd pleidlais wedi'i chofnodi.

Dros y cynnig – (20)

Cynghorwyr, J. Cahill, J. Chamberlain Jones, W.L. Cowie, J.M. Davies, P.A. Dobb, M.J. Eckersley, S. Frobisher, G.A. Green, M.M. Jones, D.W. Lee, P.J. Marfleet, L.M. Morris, P.W. Owen, D. Owens, A.G. Pennington, B.A. Smith, D.A.J. Thomas, J. Thompson-Hill, E.W. Williams a J.G. Yorke

Yn erbyn y cynnig– (20)

I.W. Armstrong, J.R. Bartley, B. Blakeley, J Butterfield J.A. Davies, M.LI. Davies, C.M. Evans, G.C. Evans, R.L. Feeley, I.A. Gunning, D. Hannam, C. Hughes, N.J. Hughes, T.R. Hughes, E.R. Jones, H.LI. Jones, G.M. Kensler D.I. Smith S. Thomas, C.H. Williams

Defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw DROS y cynnig

Felly, **PENDERFYNWYD** bod:

Aelodau'n cadarnhau cefnogaeth barhaus i'r Cynllun Datblygu Lleol fel y'i gwelwyd ym Mhennod 7 (gyda gwelliant cyfeir-rifau FC20 - FC 24 Newidiadau Arfaethedig sy'n Canolbwyntio) gan gynnwys y lefel arfaethedig a dosbarthiad twf a dyraniad y Safle Strategol Allweddol ym Modelwyddan ar gyfer cymysgedd o ddefnydd fel yr amlinellwyd ym Mholisi BSC 5 yn y Cynllun Datblygu Lleol (ynghyd â'r cyfeir-rif FC36 y Newid Arfaethedig sy'n Canolbwyntio)

Ar yr adeg hon, 1.15 pm, gohiriwyd y cyfarfod i gael cinio.

CYNGOR SIR DINBYCH

Cofnodion cyfarfod Arbennig y Cyngor Sir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (L.D.P.) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun dydd Gwener 20 Mai 2011 gyda sesiwn y prynhawn yn dechrau am 2 p.m.

PRESENNOL

Cynghorwyr W.L. Cowie (Cadeirydd), I.W. Armstrong, , B. Blakeley, J Butterfield, J. Cahill, J. Chamberlain Jones, J.A. Davies, J.M. Davies, M.LI. Davies, P.A. Dobb, C.M. Evans, G.C. Evans, R.L. Feeley, S. Frobisher , G.A. Green I.A. Gunning, D. Hannam, C. Hughes, M.M. Jones, P.J. Marfleet, L.M. Morris, D. Owens, B.A. Smith, D.A.J. Thomas, J.G. Yorke

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Rheolaeth Gorfforaethol dros dro (JK), Pennaeth Polisi Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (GHB), Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth (AL), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Busnes, Trawsnewid ac Adfywio (BJ), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Demograffeg, Lles a Chynllunio (SE), Jonathan Easton, Siambr Kings– Bargyfreithiwr y Cyngor

Croesawodd y Cadeirydd bawb yn ôl.

Cyfeiriodd AL at y Papur Ymgynghori **AD3** - roedd yr aelodau wedi derbyn copïau ar ddisgen gyda chopïau papur ar gael yn Ystafell yr Aelodau a gan Arweinwyr Grwpiau. Mae pob mân newid i'r Cynllun Datblygu Lleol Cyflwynedig wedi'i restru yn y ddogfen. Roedd nifer o newidiadau'n ganlyniad cyfraniadau o'r camau ymgynghori a barn aelodau yn y gweithgor. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd M.LL. Davies, eglurwyd nad oedd y papur wedi'i gyfieithu i'r Gymraeg gan mai ar ffurf drafft mae ar hyn o bryd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd I Gunning at y broblem oedd yn wynebu pobl ifanc wrth chwilio am swyddi. Gobeithiai y bydd y deiliant yn cael ei fonitro.

Mynegodd y Cynghorydd G Evans bryder am y polisi tai fforddiadwy o safbwynt pentrefannau.

Cynigiodd y Cynghorydd S Frobisher (eiliwyd gan M. Ll. Davies) fod yr **Aelodau'n cymeradwyo Adroddiad yr Ymgynghori (Dogfen Atodol AD3) i'w gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio.**

O'i roi i bleidlais, **CYMERADWY-WYD** hyn.

Cyfeiriodd AL at argymhelliad 3: **AD5** - Adroddiad Newidiadau sy'n Canolbwyntio. Roedd y ddogfen hon yn cynnwys cywiriadau i gamgymeriadau teipio a chanlyniadau'r ymgynghori a gynhaliwyd.

Cynigiodd y Cynghorydd S Frobisher (eiliwyd gan I Gunning) fod **Aelodau'n cymeradwyo'r Newidiadau arfaethedig sy'n Canolbwyntio (Dogfen atodol AD5)ar gyfer ymgynghoriad.** O'i roi i bleidlais, **CYMERADWY-WYD** hyn.

Cyfeiriodd AL at Argymhelliad 4. Gofynnodd y Cynghorydd BA Smith a ddylai Dinbych gael ei chynnwys gan nad oedd unrhyw sôn amdani yn y rhestr ar dudalen 63.

Atebodd AL y dylai Dinbych gael ei chynnwys, camgymeriad oedd hyn.

Gofynnodd y Cynghorydd B Smith am bolisi ar ynni adnewyddol. Dywedodd y gallai datblygiadau pellach esgor ar gaeau'n cael eu gorchuddio gan baneli solar tra bod y drafodaeth yn digwydd.

Credai'r Cynghorydd P Marfleet y dylid geirio'r polisi i gynnwys beth bynnag fydd yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol.

Ystyriai AL fod VOE 10 yn cynnwys hyn ond gellid ei ail eirio i'w wneud yn gliriach.

Cynigiodd y Cynghorydd S Frobisher (eiliwyd gan I. Gunning) fod **Aelodau'n cymeradwyo Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych gyda Newidiadau Arfaethedig sy'n Canolbwyntio ac yn cytuno i gyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol yn ffurfiol ynghyd â'r Newidiadau Arfaethedig sy'n Canolbwyntio i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio (Dogfennau Atodol AD1, AD2 & AD5)**
O'i roi i bleidlais, **CYMERADWY-WYD** hyn.

Cyfeiriodd AL at Argymhelliad 5, am yr Archwiliad Cyhoeddus. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Colin Hughes am lefel cyfranogiad Aelodau, dywedodd AL y gallai'r Archwiliwr wahodd unrhyw un i gyfrannu at yr Archwiliad Cyhoeddus. Gall unrhyw un sydd wedi cyflwyno gwrthwynebiad dilys yn ystod un o'r cyfnodau ymgynghori rhagnodedig, roi tystiolaeth.

Cynigiodd y Cynghorydd S. Frobisher (eiliwyd gan D Hannam) fod **Aelodau'n cytuno i symud ymlaen â threfniadau ar gyfer yr Archwiliad Cyhoeddus a dirprwyo awdurdod I Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio drefnu Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Arolygiaeth Gynllunio.**
O'i roi i bleidlais, **CYMERADWY-WYD** hyn

Cyfeiriodd AL at argymhelliad 6. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd GC Evans am rôl y Gweithgor yn y dyfodol, atebodd GHB y byddai rôl wrth symud tuag at yr Ymchwiliad a byddai'n trafod hyn gyda'r Aelod Arweiniol.

Cynigiodd y Cynghorydd D Owens fod **Aelodau'n dirprwyo awdurdod i'r Aelod Arweiniol dros Ddatblygiad Cynaliadwy ac Amgylchedd mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio i gytuno ar unrhyw newidiadau nad oedd yn rhai materol i'r Cynllun Datblygu Lleol a'r dogfennau cysylltiedig y bydd eu hangen efallai cyn y cyflwyniad ffurfiol ac yn ystod yr Archwiliad Cyhoeddus.**
O'i roi i bleidlais, **CYMERADWY-WYD** hyn.

Dywedodd y Cynghorydd DAJ Thomas ei fod yn ystyried bod Aelodau wedi gorfod gwneud penderfyniad sylweddol dros Gyngor Sir Dinbych heddiw a chanmolodd y staff fu'n ymwneud â hyn i sicrhau bod pawb yn derbyn llawer iawn o wybodaeth angenrheidiol.

Croesawodd y Cynghorydd S Frobisher y ddadl ond roedd yn ddrwg ganddo fod y Gweithgor wedi'i feirniadu. Ategodd y clod am y gwaith mawr a'r ymdrech ar ran y staff.

Dywedodd y Cynghorydd D Owens nad oedd y Gweithgor yn cael ei feirniadu ond y defnydd a wnâi'r Cynghorwyr ohono.

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Gunning y dylid sefydlu Grwp Monitro. Cytunwyd i hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.40 pm
